


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU GORFFENNAF 27 2021 MICROSOFT TEAMS 7pm

PRESENNOL :- Cyngorwyr :- Gwilym Jones, Selwyn Griffiths, Ian Jones, Jason Humphreys, Nia Jeffreys
Marian Roberts (Clerc)

1. Ymddiheuriadau :-Llywelyn Rhys, Dr Simon Brooks

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Cyngorydd Llywelyn Rhys, cymerodd yr Is-Gadeirydd Cyngorydd Selwyn Griffiths y Gadair.

2. Cae Pawb

Ymunodd Gwladys Roberts â'r rhan yma o'r cyfarfod fel cynrychiolydd Pwyllgor Cymdeithas Cae Pawb. Dewisodd y Cyng Jason Humphreys beidio a chyfrannu i'r drafodaeth. Cafwyd adroddiad gan Gwladys Roberts yn egluro fod pethau'n rhedeg yn esmwyth yn y rhandiroedd ar y cyfan. Nodwyd bod 4 o'r tenantiaid wedi derbyn llythyrau yn gofyn iddynt gadw at y rheolau wrth ofalu am eu plotiau a'u cadw mewn trefn. Roedd y Clerc wedi derbyn ymateb gan un person oedd yn awyddus i newid o blot llawn i hanner plot. Nodwyd mai'r Cyngor Tref sydd â'r hawl i reoli'r rhestr aros ac i ddynodi rhandir i'r sawl sydd ar ben y rhestr aros. Ni chynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Pwyllgor Cymdeithas Cae Pawb oherwydd y gwrês mawr yr wythnos diwethaf. Gobeithir cynnal y cyfarfod yn fuan gan fod y Cadeirydd presennol, John Gareth Roberts am sefyll i lawr ac y bydd rhaid ethol Cadeirydd newydd. Diolchodd y Cyng Selwyn Griffiths i Gwladys Roberts am ei chyfraniad a gadawodd y cyfarfod.

Eglurwyd fel yr oedd Canglwm (Japanese Knotweed) wedi ymddangos yn rhai o'r rhandiroedd sydd mewn cyflwr gwael a'i fod yn broblem difrifol. Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i gais blaenorol y Clerc am gyngor ynglyn â'r canglwm oedd mai perchennog y safle oedd yn gyfrifol am gael gwared ohono a bod rheolau pendant ynglyn â sut i gael gwared ohono.

Penderfynwyd :- Gwahodd Swyddog o Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd i ddod i ymweld â'r safle er mwyn cynnig cyngor pellach, yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

3. Cae Chwarae Bodawen

Dyweddodd y Clerc iddi gysylltu efo cwmni G.L.Jones er mwyn trefnu archwiliad o'r offer chwarae ac nad oedd wedi clywed ganddynt. Bydd y Clerc yn ffonio i ddilyn hyn i fyny. Cofnodwyd fod clicied y giât wedi cael ei drwsio a bod y Clerc yn aml yn codi sbwriel oddiar y cae i'w roi yn y bin sbwriel. Dywedodd fod y bin yn llenwi yn sydyn efo bocsus pizza a bocsus sglodion.

Penderfynwyd :- holi Steffan Jones am y posibilrwydd o gael bin ail-gylchu ar y safle a gofyn beth ydi'r drefn ynglyn â gwagio'r bin gan iddo lenwi mor sydyn.

4. Bryn Coffa

Dywedodd y Clerc iddi orfod clirio olion tân o flaen y fainc ar Bryn Coffa a'i bod wedi codi sbwriel ddwy waith yno yn yr wythnosau diwethaf. Mae'r safle mewn cyflwr da ar wahân i'r broblem sbwriel yno. Mae'r Cyng Ian Jones wedi chwynu'r grisiau wrth fynedfa'r safle ac mae wedi gwella'r edrychiad yn arw.

5. Llwybrau

Cafwyd sylw fod cwynion wedi dod i law ynglyn â'r llwybr cerdded ar y Cob ond mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ac nid y Cyngor Tref ydoedd. Roedd y Clerc wedi derbyn ebost gan y Cyng Richard Williams ynglyn â phroblem "dropped kerb" ar strydoedd cefn Porthmadog ond pasiwyd nad oedd y mater yn berthnasol i fater Llwybrau. Derbyniodd ebost arall ganddo am broblem Himalayan Balsam ar hyd ymyl y Cyt a nodwyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am reoli tyfiant ar lannau'r Cyt.

Penderfynwyd :-

- Ail-gysylltu â'r Swyddog perthnasol o Gyngor Gwynedd ynglyn â'r "dropped kerb"
- Cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ac Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd ynglyn â'r Himalayan Balsam er mwyn iddynt gymryd cyfrifoldeb am gael gwared ohono neu iddynt gynnig cyngor ar sut i'w waredu.

6. Llochesi Bws

Nodwyd bod lloches Morfa Bychan wedi cael ei lanhau bellach gan gwmni Spick N Span. Roedd y Clerc wedi siarad efo Rhian Wyn Williams am y posibilrwydd o symud hen loches Tesco i safle Aldi. Mae'r Cyng Aled Griffith wedi cael lle i gadw'r lloches a bydd gweithwyr Gwynedd yn cysylltu ag o pan fyddant yn barod i dynnu'r lloches o safle Tesco. Nodwyd bod oblygiadau cyfreithiol y dylid eu hystyried wrth symud y lloches i Aldi.

Penderfynwyd :- disgwyl am ymateb gan Gyngor Gwynedd.

7. Cerflun Madocks

Dim byd i'w adrodd.

Marian Roberts
29.7.21

CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL MICROSOFT TEAMS 7pm GORFFENNAF 27 2021

PRESENNOL :- Cynghorwyr :- Gwilym Jones, Selwyn Griffiths, Ian Jones, Jason Humphreys
Marian Roberts (Clerc)

1. Ymddiheuriadau :-Llywelyn Rhys, Dr Simon Brooks, Nia Jeffreys

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Cyngorydd Llywelyn Rhys, cymerodd yr Is-Gadeirydd Cyngorydd Selwyn Griffiths y Gadair.

2. Archwilio'r Cyfrifon

Holwyd pam fod gwariant mor uchel yn adran Parciau a Mannau Agored. Eglurodd y Clerc fod y gwariant yn uwch na'r arfer oherwydd costau yr Hysbysfwrdd, yr hebogwr, glanhau Lloches Morfa Bychan, difa pla Cae Pawb a blodau i'r tybiau ar y Stryd Fawr. Cyfeirwyd at gostau'r hebogwr a holwyd os oedd adborth wedi dod am effeithiolrwydd ei wasanaeth. Nodwyd y byddai wedi bod yn fwy effeithlon petai wedi dechrau ar y gwaith ynghynt, cyn i'r gwylanod ddechrau nythu. Cytunwyd bod angen adborth cyn trefnu i'r hebogwr ymweld y flwyddyn nesaf.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

3. Cynllun Datblygu Drafft 2021-2022

Penderfynwyd :- rhoi'r Cynllun Datblygu Drafft gerbron y Pwyllgor Llawn ym mis Medi er mwyn ei drafod a chael adborth i ail-drafod ac i fwydo syniadau ym Mhwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol Tachwedd 30 2021.

4. Penderfynu ar ddyfodol Cronfa'r Cadeirydd

Penderfynwyd :-

- diddymu Cronfa'r Cadeirydd
- talu'r lwfans llawn o £1,500.00 y flwyddyn i'r Cadeirydd a'r Clerc i dalu Treth Incwm o £300 yn uniongyrchol ohono
- dim hawl wedyn gan y Cadeirydd i hawlio treuliau/ costau teithio/ blaendorch
- y Clerc i baratoi tabl o'r taliadau eraill i'w trafod a'u cymeradwyo yng nghyfarfod mis Medi

yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Jason Humphreys yn eilio.

5. Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais.: C20/0048/44/LL (wedi ebostio 21.7.21)

Lleoliad : Queen's Hotel, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HT

Bwriad : Cais ar gyfer gwaith mewnol i ddarparu ystafelloedd ychwanegol i'r gwesty, gosod ports allanol a gwneud newidiadau allanol i newid ffenestr llawr gwaelod yn ddrws ac ail-leoli adeilad allanol

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00

Marian Roberts

29.7.21